# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Hydref 2020

Amser: 09.46 - 12.07

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/6458

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Angela Burns AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Hugh Morgan, Llywodraeth Cymru<br>Tim Render, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Alastair McQuaid |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Gwnaeth Jenny Rathbone AS ddatgan buddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Ewropeaidd 2013 - 2015.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i Anthony Barrett a Mike Usher am eu cyfraniadau i archwiliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'u rolau wrth gefnogi'r Pwyllgor. Dymunodd yn dda i'r ddau ohonynt, ar ran y Pwyllgor, yn dilyn eu hymadawiad diweddar o Archwilio Cymru.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2a Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cracio'r Cod - Rheoli Codio Clinigol Ledled Cymru

### 2b Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 10 Cyfle i Ailosod ac Ailgychwyn System Gofal wedi'i Gynllunio y GIG

## 3 Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Cafodd y tystion eu holi gan yr Aelodau ynghylch Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian.

3.2 Cytunodd Andrew Slade i anfon peth gwybodaeth ychwanegol at y Pwyllgor.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Rhwystrau rhag Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Cynllunio digwyddiadau rhanddeiliaid

6.1 Trafododd yr Aelodau y papur a'i nodi.